Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 14eg o Mawrth am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr –Lisbeth James (LJ) Sianelen Pleming(SP), Gwyn D Roberts (GR), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Dewi Ellis (DE), Emlyn Hughes (EH), William Jones (WJ) a'r Cyng. Aled Jones *8:15* (AJ).

1. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd –** Croesawyd pawb a oedd yn bresennol gan Lis James a gadeiriodd y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd. Nododd fod y Cyngor yn dymuno gyrru cofion at dad Olwen Roberts.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 10fed o Ragfyr, 2017 yn gywir ond bod angen newid 'Garn' i 'Carnguwch' yn ail linnell eitem 5. Eiliodd William Jones.

4.2 **Materion yn codi** –

**4.2.1** **Dŵr yr Eifl –** *Nid yw'r Cyngor Sir wedi cadarnhau perchnogaeth y man ple mae angen ymgymryd â gwelliannau eto. Y Clerc i gysylltu gyda'r swyddog perthnasol yn y Cyngor i holi sut mae'r gwaith o adnabod perchnogaeth y safle mewn golwg yn mynd yn ei flaen.*

4.2.2 **Gor-yrru yn Llithfaen –** Mae'r heddlu yn y broses o gasglu data cyflymder yn yr ardal. Bydd y data yma yn cael ei yrru i 'GO SAFE' yn fuan. Sicrhawyd fod yr Heddlu a'r Cyngor Sir yn ymwybodol o weithgaredd eu gilydd yn yr ymgyrch yma. Mae PC Geraint Williams wedi cynnig trafod y data â'r Cyngor Cymuned. *Y Clerc i wahodd PC Geraint Williams i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth – gyda'r cyfarfod i ddechrau am saith o'r gloch.*

Adroddodd y Cyng. Aled Jones ei fod yn parhau a'i ymchwil i'r modd y mae lleoliadau eraill yn ariannu arwyddion sy'n fflachio pan y bydd cerbyd yn gor-yrru.

4.2.3 **Wal derfyn gerrig sych ar ochr y ffordd i Nant Gwrtheyrn** – Gofynwyd os oes modd i'r Cyngor Sir ac AHNE gydweithio i atgyweirio'r wal. Gan nad oes newid yn y sefyllfa *y Clerc i ohebu gyda Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir a Rheolwr Gwasanaeth AHNE i'w hysbysu fod aelodau o'r cyhoedd wedi cwyno fod y wal yn parhau i ddirywio*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

*ac yn berygl i'r cyhoedd. Y Clerc hefyd i geisio eglurhad o ble mae'r ffin o ochr y ffordd lle mae cyfrifoldeb y Cyngor Sir yn dirwyn i ben.*

4.2.4 **Ffordd Pistyll i Pentreuchaf –** *Gofynwyd i'r Clerc holi'r Cyngor am y cynnydd gyda'r barbio ar y ffordd. Yn ogystal gofynwyd iddo dynnu sylw'r Cyngor at y ffoes sydd wedi cau wrth ochr y ffordd o'r ochr isaf i Benisarhos.* Cysylltodd Merfyn Griffith (Cyngor Gwynedd) (07748 930765) a'r Clerc ar y 27 Chwef. Nododd iddo ef a Glyn Titus fynd ar hyd y ffordd mewn golwg un neu 2 o weithiau yn ddiweddar. Mae'n cydnabod fod problem gyda gor dyfiant/angen barbio mewn 1 neu 2 o lefydd ond tydy nhw ddim digon drwg i'r Cyngor fynd a'r mater yn ei flaen gyda'r perchnogion. Byddai angen i'r Cyngor Sir fod yn fodlon mynd ac achos Llys i'r eithaf gyda'r hollgostau a fyddai ynghlwm a hynny. Mae'n gofyn i'r Cynghorwyr gadw golwg a gadael iddo wybod os yw'r broblem yn dirywio. Mae'n fodlon i mi roi ei rif ffon mobile i Emlyn sydd wedi bod yn codi'r mater yng nghyfarfodydd y Cyngor.

5. **Adolygu a mabwysiadu Cod Ymddygiad** – Adolygwyd y 'Cod Ymddygiad Enghreifftiol' a gyflwynwyd i'r Cyngor gan y Clerc. Cynigiodd Sianelen Pleming fod y Cyngor yn ei fabwysiadu ac eiliodd Gwilym Williams. Gan fod pawb yn gytun mabwysiadwyd y 'Cod Ymddygiad Enghreifftiol'.
   Gan fod y Cod wedi'i fabwysiadu gofynwyd i'r holl Aelodau fwrw golwg tros y cofnod o 'ddiddordebau' sydd angen eu datgan*. Bydd angen i unrhyw Aelod sydd â diddordeb i'w ddatgan adael i'r Clerc wybod erbyn cyfarfod y 14 o Fawrth.* Bydd yntau wedyn yn nodi'r wybodaeth ar y gofrestr diddordeb.
   Esbonwyd y broses angenrheidiol petai Aelod angen datgan diddordeb ar ddechrau cyfarfod.

6. **Diweddaru Cofrestr a pholisiau prisio asedau'r Cyngor** – Diweddarwyd Cofrestr a pholisiau prisio'r Cyngor Cymuned.
   Er amheuon y Clerc am yr angen i gynnwys Canolfan Gymunedol Llithfaen ar gofrestr asedau y Cyngor Cymuned penderfynodd y Cyngor Cymuned i beidio a'i nodi ar y gofrestr. Bydd y penderfyniad hwn yn golygu na fydd yn cael ei chynnwys ar adroddiad ariannol y Cyngor ychwaith.
   Penderfynodd y Cyngor brisio mainc Carnguwch, Tan y Bwlch a Phistyll yn £100 yr un gan nad yw'r gwaith papur pryniant gwreiddiol ar gael.'

7. **Cytundeb y Clerc –** Penderfynwyd fod yr Aelodau am gyfarfod i drafod y cytundeb a gynigwyd yn absenoldeb y Clerc cyn cyfarfod y Cyngor ar y 14 Mawrth.

8. **Canolfan Llithfaen** – Adroddodd SP yn ôl fel a ganlyn yn dilyn cyfarfod panel a chynrychiolydd o'r Cyngor Sir:

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon rhoi prydles o hyd at 99 mlynedd i'r Cyngor Cymuned fel corff sefydlog. O dan amgylchiadau felly byddai'r holl gyfrifoldebau cynnal a chadw, costau rhedeg ac yswirio yn sefyll gyda'r Cyngor Cymuned. Yna byddai modd i'r Cyngor Cymuned roi is-brydles o hyd at 99 mlynedd i Bwyllgor y Ganolfan er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldebau cynnal a chadw, costau rhedeg ac yswirio ymlaen iddynt hwy. (Byddai angen darparu enw tri swyddog i ddal y brydles ar ran Pwyllgor y Ganolfan). Rhydd is-brydles sicrwydd ynghylch cyfrifoldebau i'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Ganolfan. Mae'r fframwaith mewn golwg eisioes wedi bod o dan ysryrieth gan Bwyllgor y Ganolfan.

Pe bai Pwyllgor y Ganolfan yn penderfynu dirwyn i ben byddai modd iddynt ildio'r brydles i'r Cyngor Cymuned os byddant hwy yn fodlon ar yr ildiad. Byddai hyny yn rhoi'r opsiwn i'r Cyngor Cymuned redeg y Ganolfan. Pe baent yn penderfynnu peidio a gwneud hyny byddai modd i'r Cyngor Cymuned ildio eu prydles i Gyngor Gwynedd.
Petai ad-drefnu Cynghorau Cymuned a Chyngor Cymuned arall yn cymryd lle Cyngor Cymuned Pistyll, fel olynydd uniongyrchol, byddai yn cymryd lle Cyngor Cymuned Pistyll yn y prydlesi, a byddai'r is-brydles i Bwyllgor y Ganolfan yn parhau mewn lle.

Bydd y Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Ganolfan angen barn gyfreithiol annibynnol ar y dogfennau cyn eu harwyddo.

Ar sail yr uchod cynigiodd John Owen fod y Cyngor yn symud ymlaen a'r brydles/is-brydles ac eiliwyd y cynning gan Dewi Ellis. Roedd yr Aelodau a oedd yn bresennol i gyd yn cytuno. *Gan hynny awdurdodwyd y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir ddarparu telerau drafft a gofyn i'r adran gyfreithiol baratoi y brif brydles ac is-brydles.*

9. **Mynwent Pistyll** – Mae'n amod o bolisi yswiriant y Cyngor Cymuned eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod y fynwent mewn cyflwr diogel a bod pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol yn cael eu cymryd i gydymffurfio hefo'r amod yma. Noda'r Yswirwyr fod disgwyl bod y fynwent yn cael ei hymchwilio'n rheolaidd a bod rhaglen cynnal a chadw mewn lle. Dylai'r gwaith a benwyd yn cael ei gyflawni i sicrhau fod fod yr holl fynwent yn addas i'w defnyddio gan y cyhoedd. Dylai'r holl archwiliadau a chynnal a cadw gael ei gofnodi gyda'r cofnod yn cael ei gadw fel tystiolaeth.
   Pe byddai angen i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb ffurfiol am gerrig beddi byddai'n angenrheidiol iddo gymryd camau addas i sicrhau eu bod saff i sicrhau diogelwch pawb sy'n defnyddio'r fynwent.
   Byddai angen nodi wal y fynwent benodol ar y polisi yswiriant iddi gael ei hyswirio. I alluogi'r yswirwyr i ddarparu dyfynbris maent angen cofnod o werth i'r wal a nodyn o'i lleoliad.
   Nododd GW ei fod yn fodlon archwilio'r fynwent/cerig beddi. *Gofynwyd i'r Clerc ddarparu rhaglen waith amlinellol ar gyfer y camau angendrheidiol i fodloni gofynion yr yswirwyr ar gyfer cyfarfod Mawrth, 2107.*

10. **Ceisiadau Cynllunio –** Cais Rhif: C16/1595/43/LL: Lleoliad: Natural Retreats, Fferm Pistyll Farm, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL536LR: Diwygio amod 3 ar ganiatad cynllunio C07D/0309/43/LL er mwyn defnyddio llety staff fel uned wyliau. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir nad oes gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad i'r cais hwn.*

11. **Gohebiaeth**

11.1 Mae Cyngor Cymuned Llanaelhaearn wedi gofyn i'r Cyngor am lythyr o gefnogaeth

i'w hymgyrch i gael golau stryd ar gyffordd Trefor. Penderfynodd y Cyngor eu bod yn cefnogi'r ymgyrch *a gofynwyd i'r Clerc yrru llythyr o gefnogaeth*.

11.2 Daeth ymgynghoriad pellach ynglyn a chwtogi Ciosgau BT i law. Mae ciosg Llithfaen a Phistyll ymysg y rhai dan sylw ac mae hyd at y 25 Ebrill, 2017 i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhai Aelodau am edrych ymhellach i ddefnyddiau amgen ar gyfer ciosg Llithfaen gan adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned cyn diwrnod cau'r ymgynghoriad.

11.2 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'

11.3 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

12. **Materion Lleol eraill a gyflwynwyd o flaen llaw – dim**

13. **Cyllid**

13.1 **Adroddiadau Archwilwyr Allannol –** Derbynwyd y rhybudd o ddiwedd archwiliad ar gyfer 2014/15. Bydd y rhybudd o hawl i archwilio'r ffurflen flynyddol yn cael ei harddangos yn unol a'r gofynion arferol.

**Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:

Derbyniadau: Dim

Taliadau: £150.00 – Pwyllgor Cae Chwarae
£100.00 - Cyflog Clerc
£93.68 – Costau Gweinyddol Clerc (3 mis)

Balans cyfrif cyfredol : £2477.33
Balans Cyfrif cadw: £2743.15
Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -
£100.00 – Cyflog Clerc
£360.00 – Archwiliad Allannol 14/15 Hacker Young *(Wedi derbyn yr infois ar ôl i'r rhaglen fynd allan. Gan y byddai llôg yn daladwy pe na byddai'r infois wedi'i dalu cyn y 10 Mawrth darparwyd siec. (Yn unol ac eitem 6.6 o Reolau*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

*Ariannol y Cyngor] )*

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 14eg o Fawrth am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347